Hawdd ei Deall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r trydydd cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Chris Dodds** – Cartrefi Cymru
- **Geraint Jones-Griffiths** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Grace Coppock** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Grace Krause** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Gwen Anslow** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Helga Uckermann** – Cymdeithas Cyngor ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- **Hilary Whittaker**
- **Iwan Good** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Janis Griffiths** – Gofalwr teuluol

- **Jeremy Tudway** – Dimensions UK
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kara Williams**
- **Kate Wyke** – Cyswllt Teulu
- **Kate Young** – Mencap Cymru
- **Kathryn Morgan** – Shared Lives Plus Cymru
- **Kirsten Jones** - Natspec
- **Louise Peck** – Eiriolaeth Eich Llais
- **Marg McNeill** – See Around Britain
- Mandy Powell – Cymorth Cymru
- **Mike Jackson** – Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent
- **Nick Davies** – Gofalwr teuluol
- **Paul Hunt** – Mencap Cymru
- **Rachel Hazlewood** – Cyngor Caerdydd
- **Richard Redmond** – Person ag anabledd dysgu
- **San Leonard** – Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
- **Sandra Spratt** – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
- **Sarah Mackintosh** – Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
- **Sharon Frewin** – Cyngor Sir Gâr
- **Simon Rice** – Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
- **Steve Cox** — Perthyn
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru



## Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- Adele Rose-Morgan – Rhiant ofalwr
- Eve Exley – Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf
- Humie Webb – Rhiant a Chyd-Gadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Anabledd Dysgu
- Ishbel Hansen – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe

# Gwybodaeth am y ddogfen yma




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 14**.

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd Sioned Williams, Aelod o'r Senedd a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i'r cyfarfod.



Eglurodd Sara Pickard o Mencap Cymru y byddai'r cyfarfod yn sôn am yr **argyfwng costau byw**.





Mae'r **argyfwng costau byw** yn ymwneud â'r ffaith bod pris llawer o bethau yn codi. Mae'r pethau hyn yn cynnwys nwy, trydan, petrol a bwyd.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i rai pobl dalu am bethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Gofynnodd Sara i bobl rannu eu syniadau am sut y gallai Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol wneud pethau'n well i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.

# 2. Cyflwyniad ar sut mae Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cefnogi aelodau gyda'r argyfwng costau byw





Siaradodd Simon Rice a Sarah Mackintosh am sut mae Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin wedi bod yn helpu aelodau gyda'r **argyfwng costau byw**.




Lluniwyd llyfr hawdd ei ddarllen i aelodau gyda llawer o syniadau am sut i arbed arian.



Mae'r llyfr yn cynnwys ryseitiau ar gyfer prydau rhad sy'n hawdd eu coginio.




Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys rhestr o lefydd yn Sir Gaerfyrddin lle gall pobl fynd i gadw'n gynnes.



Mae’n cynnwys syniadau i helpu pobl i ofalu am eu harian.



Mae Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin wedi cynnal gwersi coginio i helpu aelodau i ddysgu sut i goginio prydau hawdd a rhad.




Maen nhw hefyd wedi cynnal gweithdai i aelodau ddysgu am gyllidebu a gofalu am eu harian.



Mae'r holl gefnogaeth hon wedi helpu aelodau i deimlo'n fwy hyderus eu bod yn deall sut i ofalu am eu harian.




Ond, dywedodd Sarah ei bod yn ymddangos bod aelodau sy'n byw'n annibynnol yn cael mwy o drafferth na'r rhai sy'n byw gyda theulu neu mewn cartrefi gofal, neu'n byw â chymorth, ar hyn o bryd.



Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid iddynt reoli eu harian eu hunain a thalu eu biliau eu hunain. Maen nhw’n ei chael hi’n anoddach talu am y pethau sydd eu hangen arnynt.




Mae costau pethau fel bwyd, trydan a nwy wedi codi. Ond, nid yw budd-daliadau na chyflogau pobl wedi codi i dalu am bopeth.

## 3. Cwestiynau a syniadau




Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau a rhannodd eraill eu syniadau.



Dywedodd Sioned fod yna wahanol fathau o gefnogaeth ar gael i helpu pobl gyda’r argyfwng costau byw.



Gofynnodd a yw'n rhwydd i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd ddeall sut i gael y cymorth cywir.



Atebodd Sarah nad yw'n rhwydd o gwbl. Mae’n rhaid i bobl gofrestru ar-lein i gael rhywfaint o gymorth ac nid oes llawer o aelodau'n gwybod sut i wneud hyn.




Nid oes digon o wybodaeth hawdd ei deall ar gael am y cymorth sydd ar gael i bobl na sut i gael y cymorth hwn.



Dywedodd Wayne o Mencap fod staff gofal cymdeithasol hefyd yn ei chael hi’n anodd talu eu biliau oherwydd nad yw eu cyflogau wedi codi.




Mae hyn yn golygu bod pobl yn chwilio am swyddi eraill sy'n talu mwy o arian.



Os bydd llawer o staff gofal cymdeithasol yn newid swyddi, efallai na fydd digon o staff ar gael i gefnogi pobl ag anabledd dysgu yn y dyfodol.



Dywedodd Steve o Perthyn fod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi **cyflog proffesiynol** i staff gofal cymdeithasol i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu talu digon fel bod dim rhaid iddyn nhw newid swyddi.



Mae **cyflog proffesiynol** yn golygu talu'r swm cywir i staff gofal cymdeithasol am eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad. Er enghraifft, talu'r un faint i staff gofal cymdeithasol â staff sy'n gweithio ym maes iechyd.

## 4. Cyflwyniad gan Fforwm Cymru Gyfan yn rhannu straeon gan deuluoedd



Rhannodd Gwen Anslow a Grace Coppock o Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan straeon teuluoedd pobl ag anabledd dysgu sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r **argyfwng costau byw**.





Mae llawer o deuluoedd yn poeni am dalu eu biliau trydan a nwy.



Mae rhai teuluoedd yn gorfod defnyddio llawer o drydan oherwydd bod angen offer trydanol ar eu plant i'w helpu bob dydd. Mae'r offer hyn yn cynnwys pethau fel teclynnau codi neu welyau trydanol arbennig.



Fel arall, mae'n bosibl bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r peiriant golchi a'r peiriant sychu dillad yn llawer amlach na theuluoedd nad oes ganddynt blentyn anabl.



Mae angen i rai teuluoedd gadw'r gwres ymlaen drwy'r dydd oherwydd anghenion iechyd eu plentyn.

Neu mae'n rhaid i'w plentyn ymolchi sawl gwaith bod dydd.




Mae hyn yn golygu bod biliau trydan a nwy y teuluoedd hyn yn uwch na biliau teuluoedd eraill nad oes ganddyn nhw blant anabl.




Nid yw teuluoedd yn gwybod sut y byddant yn gallu fforddio talu eu biliau os byddant yn parhau i godi.




Mae cost trydan a nwy wedi cynyddu'n sylweddol eleni, ac mae'n debyg y bydd y costau hyn yn cynyddu mwy fyth flwyddyn nesaf.




Rhannodd Gwen a Grace wybodaeth am rywfaint o’r cymorth y gall teuluoedd a gofalwyr ei gael i helpu gyda’r argyfwng costau byw.



Ond mae llawer o'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth eisoes yn ei chael hi'n anodd helpu'r holl bobl ychwanegol sy’n gofyn am gymorth ar hyn o bryd.



Mae angen mwy o arian ar y gwasanaethau hyn fel y gallan nhw helpu mwy o bobl.



Mae hefyd yn bwysig bod yr arian ychwanegol y mae Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU i helpu gyda’r argyfwng costau byw yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r bobl sydd ei angen fwyaf, fel pobl anabl a'u teuluoedd.

## 5. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau a rhannodd eraill eu syniadau.



Dywedodd Wayne y byddai'n dda pe gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu ysgrifennu at y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofalwyr i weld sut y gall y ddau grŵp gydweithio.



Dywedodd Sioned fod hwn yn syniad da. Bydd hi'n ysgrifennu at Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofalwyr.

## 6. Unrhyw fater arall a'r cyfarfod nesaf




Diolchodd Sara i bawb a roddodd gyflwyniad yn ystod y cyfarfod.



Dywedodd Sam y bydd y cyflwyniadau hyn a nodyn hawdd ei ddeall o'r cyfarfod ar gael ar wefan Anabledd Dysgu Cymru a gwefan y Senedd pan fyddan nhw'n barod.




Mae holl agendâu, nodiadau a chyflwyniadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar gael yma: [https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/](https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/)




Dywedodd Sara wrth y grŵp y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu yn cael ei gynnal am **12:30pm ar 15 Mawrth 2023**.



Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod yn y cyfarfod nesaf, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk neu Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Diolchodd Sara a Sam i bawb am ddod i'r cyfarfod.

# Geiriau anodd

## Argyfwng costau byw

Mae'r argyfwng costau byw yn ymwneud â'r ffaith bod pris llawer o bethau yn codi. Mae'r pethau hyn yn cynnwys nwy, trydan, petrol a bwyd.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i rai pobl dalu am bethau sydd eu hangen arnynt.

## Cyflog proffesiynol

Mae cyflog proffesiynol yn golygu talu'r swm cywir i staff gofal cymdeithasol am eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad. Er enghraifft, talu'r un faint i staff gofal cymdeithasol â staff sy'n gweithio ym maes iechyd.